# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| : | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| d: | **Dydd Llun, 19 Tachwedd 2012** |
| | **13:35 - 16:56** |

wylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

**/www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_21_11_2012&t=0&l=en**

Cynullia
Cenedla
Cymru
National
Assembl
Wales

## dion Cryno:

| | |
|---|---|
| u'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies** |
| : | **David Richards, Llywodraeth Cymru**<br>**Arwel Thomas, Head of Corporate Governance**<br>**Karen Sinclair, Former Assembly Member**<br>**Ieuan Wyn Jones**<br>**Andrew Davies, Former Minister for EIN** |
| Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Anfonodd y Cadeirydd ei ymddiheuriadau am fethu dechrau'r cyfarfod. Gofynnodd y Clerc am enwebiadau i benodi Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22. Enwebwyd Jocelyn Davies gan Jenny Rathbone, ac fe'i penodwyd nes i'r Cadeirydd gyrraedd.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie Morgan a oedd wedi datgan buddiant yn yr eitem ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a’r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, gan mai ei gŵr oedd y Prif Weinidog ar y pryd.

## 2. Proses gaffael Llywodraeth Cymru a’r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen

**Llywodraeth Cymru**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd dros dro David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu, Llywodraeth Cymru; ac Arwel Thomas, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd, i'r cyfarfod.

2.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

**Cam Gweithredu:**

Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ddarparu:

- Rhagor o wybodaeth am gofrestr datganiadau o fuddiant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys pa ddatganiadau a fyddai'n cael eu hystyried yn risg posibl.

**Karen Sinclair (drwy Gynhadledd Fideo)**

2.3 Croesawodd y Cadeirydd Karen Sinclair, y cyn Aelod Cynulliad, i'r cyfarfod.

2.4 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tyst.

**Ieuan Wyn Jones AC**

2.5 Croesawodd y Cadeirydd Ieuan Wyn Jones AC, y cyn Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, i'r cyfarfod.

2.6 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tyst.

**Andrew Davies**

2.7 Croesawodd y Cadeirydd Andrew Davies, y cyn Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, i'r cyfarfod.

2.8 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tyst.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 5 a 6.

## 5. Ystyried y dystiolaeth ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a’r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a’r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen.

## 6. Y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru): Cyfnod 1 - Ystyried yr adroddiad drafft

6.1 Trafoddodd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru).

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.